



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

## Nodiadau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

**8 Chwefror 2019**

**9:00 am – 12:30 pm**

**Optic, Llanelwy**

Yn bresennol:	Cynghorydd Gareth Roberts (cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Alwyn Jones (yn bresennol ar ran Caroline Turner), Chris Stockport, Cynghorydd Bobby Feeley, Cynghorydd Christine Jones, Cynghorydd Joan Lowe (JLo), Dave Worrall, Jennie Lewis (JLe), Jenny Williams, Judith Greenhalgh, Kevin Roberts, Estelle Hitchon, Mark Wilkinson (MWil), Mary Wimbury (MWim), Morwena Edwards, Neil Ayling, Neill Anderson, Nicola Stubbins, Rob Smith, Shan Lloyd Williams, Teresa Owen, Lesley Singleton (yn bresennol ar ran Marian Wyn Jones), John Gallanders (yn bresennol ar ran Wendy Jones), Charlotte Walton
Ymddiheuriadau:	Marian Wyn Jones, Wendy Jones, Cynghorydd Liz Roberts, Llinos Medi Huws, Ffion Johnstone, Bethan E Jones, Lynda Colwell, Peter Williams.
Hefyd yn bresennol:	Gerry Evans Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol a Lles a Dirprwy Brif Weithredwr

Eitem		Gweithredu
1.	<u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau.</u> Estynnwyd croeso cynnes i aelodau newydd y bwrdd Shan Lloyd Williams, Grŵp Cynefin ac Estelle Hitchon, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	
2.	<u>Nodiadau a chymau gweithredu'r cyfarfodydd diwethaf</u>  Gweithredu o fis Rhagfyr 2018: <ul style="list-style-type: none"><li>Mae bob partner yn parhau i fynd â'r Strategaeth Anabledd Dysgu drwy eu proses wleidyddol. Unwaith y bydd y camau</li></ul>	Partneriaid i hysbysu BJE/RW pan fydd y strategaeth Anabledd Dysgu wedi bod drwy eu prosesau.

	<p>hyn wedi eu cwblhau bydd y strategaeth ar gael ar wefan y Gydweithredfa Ranbarthol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynrychiolaeth Defnyddwyr Gwasanaeth yn BPRh - dywedodd DW fod dau unigolyn wedi datgan diddordeb a hysbysir y BPRh ynghylch datblygiadau pellach.</li> </ul> <p>Ionawr 2019 – Materion a gwblhawyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Atgoffwyd aelodau'r BPRh i anfon adborth ymlaen ar Gynllun Tair Blynedd PBC at MWil erbyn diwedd Chwefror.</li> <li>• MWil i roi diweddariad ar Gynllun Tair Blynedd y PBC yng nghyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ym Mawrth.</li> </ul> <p>Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 11 Ionawr fel cofnod dilys.</p>	<p>Adborth i MWil drwy 28.2.19</p> <p>Agenda ar gyfer Mawrth - RW</p>
<p>3.</p>	<p><u>Adolygiad Llywodraethu Rhanbarthol Gogledd Cymru</u></p> <p>Diweddarwyd y bwrdd gan Judith Greenhalgh, Prif Weithredwr yn sgil y drafodaeth ym Mwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru ar yr adolygiad llywodraethu rhanbarthol.</p> <p>Mae Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BARhGC) yn cynnwys aelodaeth traws-sector; Prif Weithredwyr ac arweinwyr Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, Prif Weithredwr a Chadeirydd BIPBC, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Mae BARhGC yn awyddus i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad ar waith BPRhGC yn ystod y llynedd.</li> <li>• Dogfen weledigaeth a strategaeth ar y weledigaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn y tymor hir.</li> </ul> <p>Ychwanegodd BJE y gofynnir yn fuan i aelodau'r Bwrdd gyfrannu at ddatblygu Adroddiad Blyneddol BPRhGC 2018, a gyflwynir i LC erbyn diwedd Mehefin. Bydd yr adroddiad yn cynnwys gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer y llynedd.</p> <p>Hefyd cyfeiriodd BJE yn ôl at y gweithdy a gynhaliwyd yng nghyfarfod diwethaf BPRhGC yn Ionawr, mae hwn yn fan cychwyn ar gyfer datblygu'r weledigaeth/strategaeth. Bwriedir cynnal gweithdy arall yn Ebrill a allai ddatblygu'r strategaeth hon ar gyfer BARhGC.</p> <p>Gofynnodd GR pa mor uchelgeisiol y mae angen i'r adroddiad fod gan fod BARhC yn llywyddu dros BPRhGC.</p> <p>Pwysleisiodd JG mai'r BPRhGC yw'r arbenigwyr ar faterion lechyd a Gofal Cymdeithasol ac y bydd BARhGC yn cael ei arwain gan BPRhGC o ran nodau realistig y gellir eu cyflawni.</p>	<p>Adroddiad BPRhGC i'w gyflwyno i Fwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru ar ôl ei gwblhau.</p> <p>Datblygu'r Weledigaeth/Strategaeth yn y gweithdy nesaf</p>

	<p>Roedd aelodau BPRhGC yn cytuno bod BJE yn cysylltu â JG i ddatblygu'r weledigaeth/strategaeth yn y gweithdy nesaf.</p>	
<p>4.</p>	<p><u>Diweddariad - Gweithdy 'Beth sy'n Bwysig'</u>  Rhoddodd TO ddiweddariad ar y gweithdy 'Beth sy'n Bwysig' a gynhaliwyd fel rhan o'r BPRhGC diwethaf yn Ionawr i drafod y weledigaeth a'r blaenoriaethau a chynnig y camau nesaf. Darparodd Jane Green, hwylusydd y gweithdy, bapur ar ddatblygiad y weledigaeth, gan ddyfynnu tri opsiwn i'w hystyried. Y gweithdy oedd dechrau'r broses. Roedd nifer o aelodau'n methu â bod yn bresennol ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Ionawr, bydd eu barn hefyd yn bwysig tuag at y datganiad gweledigaeth derfynol.</p> <p>Dyma'r tri opsiwn:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Gyda'n gilydd, ein bod yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal gan wella lles pobl a chymunedau.</li> <li>2. Bod pobl a chymunedau'n cael eu cefnogi gan wasanaethau iechyd a gofal o ansawdd.</li> <li>3. Gyda'n gilydd, ein bod yn darparu gwasanaethau i wella lles pobl a chymunedau.</li> </ol> <p>Awgrymodd TO fod amser yn cael ei neilltuo i drafod ymhellach opsiynau, gwerthoedd ac ymddygiad y grŵp a fydd yn tanlinellu blaenoriaethau a strwythur y grŵp. Unwaith y deuir i gonsensws, yna bydd y Bwrdd mewn sefyllfa i symud ymlaen.</p> <p>Roedd trafodaethau pellach yn cynnwys yr isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dywedodd CB fod yr opsiynau a roddwyd yn teimlo fel camau gweithredu i wireddu gweledigaeth. Mae gweledigaeth yn cymryd amser i ddatblygu ac mae angen ei hystyried fel rhywbeth lle gall pawb weld eu rôl yn symud ymlaen.</li> <li>• Awgrymodd JW y dylid defnyddio'r gair 'hwyluso' yn lle 'darparu' a fyddai'n adlewyrchu'r bwrdd yn well.</li> <li>• Ychwanegodd BF fod yr opsiynau'n adlewyrchu'r sgwrs, yn gryno ac yn berthnasol. Hefyd ychwanegodd BF fod BPRhGC yn darparu yn ogystal â hwyluso.</li> <li>• Tynnodd MWil sylw at ddiffyg dealltwriaeth gyffredin ac uchelgais o fewn y weledigaeth.</li> <li>• Pwysleisiodd JG y dinesydd, ymgysylltu â dinasyddion a chydnabod eu cyfraniad.</li> <li>• Ychwanegodd JLe fod yr opsiynau'n adlewyrchu iaith BPRhGC; mae'n cael ei arwain gan y gwasanaeth a phwysleisiodd nad oes a wnelo gweledigaeth â gwasanaethau ond yn hytrach â bywydau, ac awgrymodd bod angen cyfeirio hefyd at y gwasanaeth integredig sengl o fewn y weledigaeth.</li> </ul> <p>Diolchodd TO i bawb am eu mewnbwn a gaiff ei adrodd yn ôl i JG. Bydd hyn yn cyfrannu at yr ail weithdy 'Beth sy'n Bwysig' yn Ebrill.</p>	<p>I'w ddatblygu ymhellach yn y gweithdy nesaf</p>

<p>5.</p>	<p><u>Rhwydwaith Canolfan Ymchwil, Arloesi a Gwella</u></p> <p>Diweddarwyd y bwrdd gan MWil ar rwydwaith y Canolfannau Ymchwil, Arloesi a Gwella y mae angen eu datblygu gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn unol â Chymru Iachach. Pwrpas y canolfannau yw cefnogi arloesedd a gwelliannau a bydd hyd at £250K o arian nad yw'n rheolaidd ar gael am ddwy flynedd i bob rhanbarth. Mae disgwyl i LC ryddhau canllawiau pellach yn ystod y 2 i 4 wythnos nesaf.</p> <p>Dywedodd ME ei bod wedi cael gwahoddiad i gyfarfod o Fwrdd Ymchwil ac Arloesedd PBC ar 5.2.19 yn rhinwedd ei swydd fel cynrychiolydd Cyfarwyddwyr yr Awdurdod Lleol ar Fwrdd PBC. Yn y cyfarfod dywedodd Jason Lintern, Pennaeth Canolfannau Ymchwil o LC y bydd canolfan â thri unigolyn yn cael ei sefydlu ym mhob rhanbarth erbyn Mawrth 2019. Mae LIC yn awyddus i'r ganolfan ategu gwaith rhanbarthol presennol, sbarduno arbedion effeithlonrwydd a newid a hwyluso'r broses o drosglwyddo gwybodaeth o ymchwil i ymarfer. Ni chynhelir unrhyw ymchwil yn y ganolfan ei hun, byddai'r ganolfan yn lle i rannu arfer da a byddai angen iddi fod yn gynaliadwy o fewn dwy flynedd.</p> <p>Cynigiwyd Tîm Cydweithredol Rhanbarthol fel y lle naturiol i leoli'r ganolfan oherwydd ei waith partneriaeth rhanbarthol a'r cysylltiad agos â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r holl ffyrddiau gwaith rhanbarthol a'r gwaith asesu poblogaeth. Byddai'r ganolfan hefyd yn cysylltu â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r Fargen Dwf. Ni awgrymwyd unrhyw gynigion eraill mewn perthynas â chynnal - bydd ME yn gwirio gyda Jason Lintern pwy sy'n gyfrifol am hyn, ai'r BPRh neu bartner unigol.</p> <p>Dywedodd BJE fod Jason Lintern eisoes wedi'i wahodd i gyfarfod o'r BPRhGC yn y dyfodol i siarad gyda'r Bwrdd am y gofyniad. Disgwylir iddo gadarnhau y bydd yn bresennol.</p> <p>Cytunodd NS fod cyfle gwirioneddol yma i alinio'r gofyniad hwn â'r bidiau trawsnewid sy'n galw am ddatblygu cysyniadau newydd a chyflwyno mewn ffordd gynaliadwy. Hefyd cytunodd NS gan y bydd y cronfeydd trawsnewid yn dod o dan y Tîm Cydweithredu Rhanbarthol, byddai cynnal y tîm hwn yna'n briodol.</p> <p>Dywedodd DW y byddai'r Trydydd Sector eisiau cyfrannu hefyd, ond nid oedd yn siŵr pwy fyddai'n cynrychioli'r sector gan fod nifer cyfyngedig o unigolion ar gael a gofynnodd pa mor eang y gallai hyn gael ei ystyried yn nhermau cyfranogi.</p> <p>Nododd MWil nad oedd LIC wedi manylu ar y maen prawf ar gyfer y cynnig a fydd yn galluogi i'r rhanbarth symud ymlaen i'r cyfeiriad y mae'n ei ddewis.</p>	<p>ME i wirio gyda JL pwy sy'n gyfrifol am gynnal.</p>
-----------	---	--

	<p>Holodd JW ynghylch eglurder y gofynion a lleisiodd bryder gan fod lechyd a Gofal Cymdeithasol ac Addysg lechyd Cymru hefyd yn ystyried datblygu canolfannau gwybodaeth eu hunain. Cynigiodd JW nad oedd y bartneriaeth yn rhuthro i wneud unrhyw benderfyniad heb wybod beth oedd bwriadau partneriaid eraill rhag dyblygu.</p> <p>Dywedodd BJE fod lechyd a Gofal Cymdeithasol a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol hefyd wedi derbyn copi o'r llythyr hwn ac y byddan nhw'n ymwybodol o'r cynnig.</p> <p>Ychwanegodd John G fod nifer o grwpiau sydd yr un fath h.y. SCResearch Wales, a ariennir gan Sefydliadau Addysg Uwch, a'i fod yn ystyried bod y ganolfan yn syniad da pe bai'n hybu'r gwaith, ond nid yn grŵp oedd yn union yr un fath yn gwneud yr un gwaith.</p> <p>Ychwanegodd MWil y gallai'r cyllid helpu gyda nifer o bosibiliadau eraill a drafodwyd gyda J Lintern h.y. cysylltu â BBChau yng Ngogledd Cymru ar gyfer adfywio economaidd ac asiantaethau sector cyhoeddus, diddordeb ar rannu arfer da. Cytunodd MWil ei bod yn ymddangos mai alinio'r arian hwn â'r gronfa drawsnewid, a datblygu cynnig yr un fath â'r un ar gyfer Cymru lachach yw'r cam mwyaf pragmataidd i'w gymryd. Gofynnodd GR i BJE weithio gyda chydweithwyr i ddatblygu bid ariannol i BPRhGC ei ystyried. Cadarnhaodd BJE y byddai'n cysylltu â sefydliadau eraill i weld beth sydd eisoes yn ei le ac o bosibl wedi'i gynllunio o fewn y rhanbarth.</p> <p>Eto tynnodd MWim sylw at y ffaith bod gofal cymdeithasol yn brif gyflogwr yng Ngogledd Cymru a'i fod yn cael ei anwybyddu'n gyson ar gyfer prosiectau o broffil uwch. Mae capasiti sylweddol yma o ystyried pwysigrwydd lechyd a Gofal Cymdeithasol fel cyflogwr.</p> <p>I gloi dywedodd RS y bydd y cynnig hwn yn werthfawr i Ogledd Cymru er mwyn herio'r agenda a bod brys ar gyfer y cynnig, a bydd y cyfle i rannu arfer da o bosibl yn gymorth i bawb.</p>	<p>BJE i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu bud ar gyfer y BPRhGC</p>
<p>6.</p>	<p><u>Grant Cyflawni Trawsnewid (DTG) – Modelau Ariannu i Ddiwallu Anghenion Gofal Cymdeithasol</u></p> <p>Diweddarwyd y bwrdd gan JW ar fodolau ariannu DTG i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol.</p> <p>Comisiynwyd yr adroddiad gan LIC drwy Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru i ddylanwadu ar yr argyfwng sy'n wynebu sefyllfa ariannu gofal cymdeithasol, y cynnig yn yr 20 mlynedd nesaf a dylanwadu ar ardoll treth posibl ar gyfer Gofal Cymdeithasol.</p>	

Rhoddodd JW grynodedb a thynnodd sylw at yr argyfwng sy'n wynebu'r holl wasanaeth ac awgrymiadau i'w hystyried ar gyfer ardoll treth yn y dyfodol.

Prif flaenoriaethau ar gyfer defnyddio cyllid a godir gan yr ardoll treth;

- Poblogaeth sy'n heneiddio a dangos cynllunio cadarnhaol ar gyfer y dyfodol
- Y gweithle – pwysau a'r newid yn rôl y gweithlu, model tâl cenedlaethol
- Atal
- Gwelliannau Gwasanaeth
- Trawsnewid ac Integreiddio. Mae Cyfarwyddwyr Gofal Cymdeithasol yn croesawu cyllid rhanbarthol ond yn ei ystyried yn her os yw'n dod yn lle cyllid craidd.

Dywedodd JW fod yr adroddiad wedi'i dderbyn gan LIC a bydd yr adroddiad yn helpu i ddylanwadu ar ddyfodol lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Ychwanegodd MWim fod Fforwm Gofal Cymru wedi cyfrannu at yr adroddiad a gofynnodd a oedd LIC wedi ystyried effaith y gweithlu. Gallai'r cynnig o bosibl eu hatal rhag ystyried opsiynau eraill â chyfradd treth is.

Dywedodd JohnG ei bod yn ymddangos pan fo toriadau'n cael eu gwneud mai'r gwasanaeth cyntaf sy'n dioddef yw'r agenda ataliol. Dylai cyllid statudol gael ei neilltuo ar gyfer y ffrwd waith hon.

Ychwanegodd NS fod ymyrraeth gynnar ac atal eisoes yn feysydd sy'n cael eu datblygu ond yn anffodus ei fod yn cael ei ariannu'n bennaf drwy grantiau.

Nododd JLe hefyd y berthynas agos rhwng cefnogaeth i ofalwyr ac atal.

Gofynnodd GR a oes angen i'r BPRhGC ddatblygu strategaeth ataliol?

Dywedodd JLo fod elfennau ataliol yn ffocws allweddol ar draws holl wasanaethau Awdurdod Lleol, nid yn unig o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol.

Hefyd ychwanegodd NS fod y pedwar bid trawsnewid yn canolbwyntio'n glir ar atal fel ffactor ysgogi allweddol, a bod yr holl staff yn datblygu ac yn canolbwyntio ar waith ataliol.

Croesawodd CB yr adroddiad hwn a chynigiodd fod angen i'r sector sicrhau newidiadau mawr er mwyn ariannu'r gwasanaeth yn ddigonol. Gellid cefnogi'r gwasanaeth i ddarparu gofal a chymorth lefel isel fel rhan o rolau eraill. Efallai nad yw'r dewis o drethu yn llwybr poblogaidd, ond serch hynny mae'n tynnu sylw at y mater.

	<p>Hefyd nododd CW y mater pwysig ac amserol o ran y bidiau trawsnewid i gydnabod y cyllid i'r system, fydd y cyllid newydd byth yn ddigon oni bai bod y gwasanaethau'n newid hefyd. Mae angen i'r gwasanaeth weithredu'n wahanol ac mae'r gronfa trawsnewid yn rhoi'r cyfle hwnnw.</p> <p>Dywedodd NA fod angen edrych hefyd ar y ffordd y mae cyllid craidd yn cael ei ddefnyddio gan bartneriaid er mwyn cael darlun clir o'r cyllid o fewn y system iechyd a gofal cymdeithasol. Gofynnodd GR i NA arwain drwy goladu'r wybodaeth hon i'w chyflwyno mewn cyfarfod o'r BPRhGC yn y dyfodol.</p> <p>Diolchodd GR i JW am yr adroddiad a gofynnodd beth oedd disgwyliadau'r Bwrdd.</p> <p>Cadarnhaodd JW nad oes unrhyw ddisgwyliad gan y Bwrdd, dim ond nodi'r gwaith a gwblhawyd eisoes.</p>	
7.	<p><u>Ymgynghori ar y Cod Ymarfer ar ddarparu Gwasanaeth Awtistiaeth</u></p> <p>Cafodd y bwrdd ei ddiweddarau gan NA ar Wasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru a'r ymgynghoriad presennol ar y Cod Ymarfer Awtistiaeth Arfaethedig.</p> <p>Nod y cod ymarfer yw helpu Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i ddarparu Cynllun Gweithredu Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig (ASD) 2016 a dyletswyddau mewn cyfraith i helpu pobl gydag awtistiaeth, wedi'i gyflawni mewn pedair ffordd: Asesu a diagnosis: cael gofal a chymorth; codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant; a chynllunio ac archwilio gwasanaethau.</p> <p>Mae'r Cod Ymarfer yn rhan o ymgynghoriad am y 6 wythnos nesaf ac mae'n cynnwys cyfrifoldebau allweddol arfaethedig i bob partner. Mae angen i bob partner fod yn ymwybodol o'r ymgynghoriad a bydd ymateb rhanbarthol yn cael ei gwblhau gan y gwasanaethau rhanbarthol yn CSFf.</p> <p>Hefyd gwnaed cais gan NA i bartneriaid fod yn ymwybodol o Adran C sy'n nodi y 'bydd gan bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hyrwyddwr ASD yn eu hardal' - dylai aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ymateb i hyn er mwyn cyfrannu at yr ymateb. Mae BPRhGC wedi trafod hyrwyddwr ASD y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn y gorffennol a chytunwyd ar y pryd na fyddai angen cynrychiolydd rhanbarthol gan fod gan bartneriaid unigol eu hyrwyddwr eu hunain.</p> <p>Gofynnodd DW i'r ddogfen hon gael ei rhannu ar wahân i aelodau'r BPRhGC.</p>	<p>Aelodau i anfon ymatebion i NA i goladu ymateb rhanbarthol.</p> <p>Anfon ymlaen ddogfennau ar wahân i BPRhGC - RW</p> <p>Bob partner i anfon ymlaen fanylion am eu hyrwyddwr ASD i BJE/RW.</p>

8.

Adroddiad Effaith Gofal Cymdeithasol Cymru

Cafodd y bwrdd ei ddiweddarau gan Gerry Evans, Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Gwybodaeth/Dirprwy Brif Weithredwr, Gofal Cymdeithasol Cymru ar waith Gofal Cymdeithasol Cymru.

Yn ddiweddar bu Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru yn adolygu'r defnydd o'r Grant Hwyluso Rhanbarthol a Rhaglen Datblygu Gweithle Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi hyfforddiant mewn gofal cymdeithasol drwy Gymru. Mae gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyfle yma i ddylanwadu ar flaenoriaethau Gofal Cymdeithasol Cymru yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad yn edrych ar rai o'r prif feysydd gwaith yn ystod 2017-18, sut mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gweithio gyda phobl a sefydliadau a chefnogi gwasanaeth cyhoeddus Cymru. Dyma'r prif bwyntiau a drafodwyd:

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi canolbwyntio ar dri phrif ganlyniad;

1. Darparu sicrwydd cyhoeddus

- Trawsnewid gofal yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif
- Datblygu cod ymarfer ar gyfer cyflogwyr gofal cymdeithasol
- Bod gan staff y sgiliau, yr wybodaeth a'r cymeriad priodol i weithio'n ddiogel

2. Datblygu'r gweithle

- Datblygu fframwaith cynefino Cymru gyfan ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol
- Cynyddu sgiliau iaith Gymraeg drwy'r strategaeth 'mwy na geiriau'n unig'
- Adolygu addysg ar gyfer cymhwyso mewn gwaith cymdeithasol
- Buddsoddi yn y gweithle gofal cymdeithasol

3. Arwain a chefnogi gwelliannau

- Cefnogi pobl sy'n dioddef o ddementia, gofalwyr, a'r gweithlu gyda fframwaith dysgu a datblygu ar gyfer dementia
- Datblygu cynllun 5 mlynedd gofal a chymorth yn y cartref
- Casglu straeon digidol er mwyn rhannu arfer da
- Gweithio gydag ymarferwyr i newid a datblygu ymarfer a chanolbwyntio ar y model 'Beth sy'n Bwysig'
- Paratoi strategaeth ymchwil a datblygu Gofal Cymdeithasol Cymru Gofal gyntaf Cymru

Dywedodd GE fod Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd wedi nodi tri maes gwella i ganolbwyntio arnynt yn hytrach na rhannu'r ymdrechion ar draws maes eang



1. Gofal yn y Cartref, a sut i gomisiynu gofal yn y cartref;
2. Plant sy'n derbyn gofal, gan weithio'n agos gyda'r grŵp Gweinidogion ac edrych ar waith ar ofal plant preswyl a'r modelau i'w hystyried
3. Dementia, gan ganolbwyntio ar ofalwyr, a darparu cefnogaeth a chysylltiadau cymunedol

Dyweddod GR wrth GE fod BPRhGC wedi'i hysbysu gan LIC o'r disgwyliad i sefydlu canolfan ymchwil, arloesi a gwella ranbarthol, a thra eu bod yn ymwybodol o'r sylwadau uchod mae BPRhGC yn awyddus i osgoi dyblygu gwaith. Eglurodd GR fod BJE yn datblygu'r bid BPRhGC ac y bydd yn cysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae GE yn croesawu'r sgwrs hon, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymwybodol o'r disgwyliad a bydd yn gweithio gyda'r sector gofal cyfan i ddatblygu hyn.

Gofynnodd DW a fydd cymwysterau blaenorol yn dal i gael eu cydnabod wrth i'r cymwysterau newydd gael eu cyflwyno, a chododd y mater o gostau cofrestru ar gyfer contractau tymor byr a throsiant staff o fewn y gwasanaeth.

Cadarnhaodd GE y bydd staff yn cael eu hannog i ddal ati i hyfforddi gan y bydd yr hen gymwysterau'n dal i gael eu cydnabod. Hefyd mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cydnabod y problemau gyda chontractau tymor byr ac mae LIC hefyd ar hyn o bryd yn edrych ar fodel mwy cynaliadwy ar gyfer y sector.

Tynnodd MWim sylw at y ffaith fod Fforwm Gofal Cymru wedi cefnogi'r gweithlu ers tro a nodwyd eu pryderon fod sail y cymhwyster newydd yn rhy academiaidd. Bydd costau cynyddol yn anochel o ganlyniad i gomisiynu a hyfforddiant a chofrestru gofynnol o Ebrill 2020.

Gofynnodd MWim a yw Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymwybodol o ganran y gweithwyr gofal cartref sydd eisoes wedi cofrestru yng Nghymru.

Dyweddod GE fod tua 1000 o staff gofal cartref wedi cofrestru hyd yma. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru a LIC yn monitro'r sefyllfa'n ofalus iawn a bydd LIC yn penderfynu ar y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yn fuan a chyhoeddir datganiad terfynol. Dywedodd GE fod Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn datblygu'r mater o ariannu'r sector yn briodol.

Holodd JLe ynghylch tâl uniongyrchol staff ac yn sgil yr heriau i recriwtio a chadw staff a yw'r maes hwn ar radar Gofal Cymdeithasol Cymru o ran cefnogi pobl a'r gweithlu.

Eglurodd GE fod LIC wedi penderfynu nad oes raid hyd yma i staff yn y sector hwn gofrestru, er bod gan Gofal Cymdeithasol

	Cymru ddyletswydd i gefnogi gweithwyr gofal uniongyrchol a'u cyflogwyr.	
9.	<p><u>ICF</u></p> <p>Diweddarwyd y bwrdd gan NA ar sefyllfa Chwarter 3 yr ICF.</p> <p>Refeniw – rhagwelir y bydd gwariant llawn gan WCCIS ac IAS.</p> <p>Cyfalaf – Dyraniad Gogledd Cymru yw £7.6m, cyfanswm MCP a gymeradwywyd yw £5.3m, DCP a gymeradwywyd yw £1.5m ac ar hyn o bryd mae'n ymddangos y rhagwelir tanwariant o tua £169k er bod cydweithwyr yn gweithio i ostwng y cyfanswm hwn.</p> <p>Dementia - y dyraniad a gymeradwywyd yw £1.5m a rhagwelir llithriant o £162k ar hyn o bryd - mae gwaith yn parhau i osgoi llithriant, o ran cyfalaf a dementia.</p> <p>O ran refeniw rhagwelir y bydd cyfanswm dyraniad o £11.5M yn cael ei wario erbyn diwedd chwarter 4.</p> <p>Gofynnodd NA i bob partner nodi bod angen i holl drafoddaethau LIC gael eu cyfeirio drwy'r Rheolwr Prosiect ICF yn y Tîm Cydweithredol Rhanbarthol gan ein bod yn ceisio dangos dull cydweithredol i'r ICF.</p> <p>Tynnodd BJE sylw aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol at y ffaith fod y sefyllfa y mae NA yn adrodd arni ar ddiwedd chwarter 3. Mae llawer o waith wedi bod yn cael ei wneud yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae'r tanwariant ar Dementia a Chyfalaf wedi digwydd yn sgil y dyfarniad ariannol gan LC a ddaeth i'n sylw'n hwyr – dim ond yn Rhagfyr 2018 y cafwyd gwybod am hwn.</p> <p>Cynigiodd GR i'r BPRhGC os bydd tanwariant ar refeniw ICF ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a fyddai aelodau eisiau iddo gael ei drosglwyddo i'r Tîm Cydweithredol Rhanbarthol i ariannu'r cyfarfodydd rhanbarthol ynteu a yw aelodau'n fodlon i'r cyllid gael ei golli.</p> <p>Gofynnodd MWil a oedd hyn yn cael sylw o fewn y trefniadau llywodraethu ar gyfer ICF. Soniodd BJE am y Cytundeb Partneriaeth presennol ar gyfer ICF nad yw'n cynnwys trefniadau llywodraethu, a arwyddwyd gan bob partner. Ni chaniateir gorwariant.</p> <p>Dywedodd DW ei fod yn anffodus iawn fod y cadarnhad am arian ICF gan LIC wedi'i dderbyn mor hwyr yn y dydd. Roedd aelodau o'r farn mai cyllid y bartneriaeth ydyw ac y dylai aros o fewn y</p>	<p>Ailedrych ar y Cytundeb Partneriaeth i gryfhau trefniadau llywodraethu.</p> <p>NA/BJE i roi'r trefniadau yn eu lle</p>

	<p>bartneriaeth. Gofynnodd GR NA a BJE i sicrhau bod trefniadau yn eu lle i sicrhau na cholli unrhyw danwariant.</p> <p>Roedd yr holl aelodau'n cytuno bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cadw unrhyw danwariant ar gyfer gwaith y bartneriaeth.</p>	
<p><b>10.</b></p>	<p><u>Diweddariad ynglŷn â Chymru Iachach</u></p> <p>Diolchodd GR i bawb oedd wedi bod yn rhan o'r pedwar cais a'r ymdrech a wnaed i sicrhau cyllid ar gyfer Gogledd Cymru. Mae hwn yn gyfle pwysig i wneud gwahaniaeth gwirioneddol ar gyfer y rhanbarth a bydd angen ymdrech enfawr i sicrhau hyn a chyflawni'r trawsnewid. Mae'r trawsnewid yn gytundeb rhwng LIC a'r BPRhGC, derbynir taliadau gan LIC ar sail canlyniadau. Mae cyfnod heriol o flaen pawb i gyflawni ar bob ffrwd waith.</p> <p>Bydd y BPRhGC yn goruchwyllo'r holl waith trawsnewid. Bydd BJE yn gyfrifol am sicrhau adroddiadau chwarterol i LIC ar bob ffrwd waith trwy weithio gyda noddwyr y prosiect. Dywedodd GR y dylai BJE gael ei gwahodd i fynychu cyfarfodydd bwrdd pob ffrwd waith er mwyn cael gwybod beth sy'n digwydd i sicrhau y cyflawnir y gwaith.</p> <p>Hyd yma cymeradwywyd dau gynnig a chytunwyd ar drefniadau llywodraethu; Gyda'n Gilydd ar gyfer Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru a Gogledd Cymru Gyda'i Gilydd: Gwasanaeth di-dor i bobl ag anableddau dysgu.</p> <p>Trefwyd gweithdy y pnawn yma i drafod y trefniadau llywodraethu ar gyfer y ddau gynnig arall; Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol ac Ymyrraeth Gynnar Integredig a Chefnogaeth Ddwys i Blant a Phobl Ifanc.</p> <p>Bydd trefn lywodraethu'r gronfa drawsnewid ar gyfer bob un o'r pedwar cynnig yn gwneud y defnydd gorau o drefniadau llywodraethu presennol, a bydd yn gweithio ar sail egwyddorion rhanbarthol a darpariaeth leol.</p> <p>Lleisiodd JW bryder ynghylch nifer y swyddi ar gyfer staff y bydd eu hangen yn enwedig o fewn ffrwd waith Trawsnewid Adnoddau Cymunedol. Hefyd nododd JW ei bod yn bwysig i'r holl bartneriaid deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn deall beth a ddisgwylir ganddynt.</p> <p>Ar ran y trydydd sector dywedodd DW y byddai arwydd cynnar o'r adnoddau disgwylidig yn help i ddeall beth fydd rhan y sectorau ac i alluogi'r trydydd sector hefyd i chwarae rhan weithgar yn y broses drawsnewid.</p>	

	<p>Diweddariadau  <u>Gogledd Cymru Gyda'i Gilydd: Gwasanaeth di-dor i bobl ag anableddau dysgu</u>  Dywedodd NA fod swydd Rheolwr Rhaglen wedi'i llenwi a bod swyddi Swyddogion Prosiect wedi'u cylchredeg yn ddiweddar. Sefydlwyd bwrdd Prosiect Trawsnewid AD ac mae hysbyseb ar wefan gwerthwchigymru yn chwilio am sefydliad sydd wedi'i sefydlu i ymgymryd â'r prosiect, a'i werthuso.</p> <p><u>Gyda'n Gilydd ar gyfer Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru</u>  Dywedodd LS y bydd trefniadau llywodraethu'n cael eu hadrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol drwy gadeirydd bwrdd T4MH. Bydd y ffrwd waith yn cael ei darparu drwy'r Timau Gweithredu Lleol (LITs) ym mhob un o'r 3 ardal drwy egwyddorion rhanbarthol a darpariaeth leol. Nid oes gan Tai sedd ar fwrdd T4MH, ond mae cynrychiolwyr tai yn mynychu LITs yr ardal ac yn cymryd rhan lawn yn yr holl waith datblygu.</p> <p>Dywedodd LS fod swyddi rheolwr busnes yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd ac y bwriedir cynnal sesiynau hyfforddi gyda'r LIT's i hysbysu'r pawb o'r disgwyliad a sut mae'r ffrwd waith yn cydfynd â'r strategaeth.  Mae pob ffrwd waith yn gymhleth ac mae gan bawb ei gyfrifoldeb unigol ei hun i fwydo i'r strwythur lleol a chael ei gynnwys. Nid yw'r trawsnewid yn gyflawn o gwbl.</p> <p>Dywedodd ME fod y Gorllewin yn gweithio i gryfhau eu ISB ac y bydd is-grwpiau'n hysbysu pawb o'r disgwyliad gan y broses drawsnewid. Mae'r cyllid yn hollbwysig, ond bydd strategaethau a chyfeiriad yn ei le i sicrhau bod y ffrwd waith yn gynaliadwy.</p> <p>Hefyd nododd Mary rôl darparwyr annibynnol sydd ar hyn o bryd dan bwysau i ddarparu'r gwasanaethau presennol, a bydd yn dibynnu ar arweinwyr bob ffrwd waith i hysbysu a chysylltu â darparwyr.</p>	<p>Cynnwys tai ar fersiwn hawdd ei ddarllen AHW</p>
<p>11</p>	<p><u>Unrhyw Fater Arall</u>  Dywedodd GR wrth y Bwrdd fod y BPRhGC wedi derbyn llythyr oddi wrth y grŵp yn gwrthwynebu cau ysbyty Blaenau Ffestiniog yn sgil asesiad o'r boblogaeth a chynllun ardal ac roedd ymateb, a gymeradwywyd gan wasanaethau cyfreithiol CSDd yn cael ei anfon ymlaen gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'n ymddangos bod y bwrdd bellach wedi ysgrifennu at LIC yn datgan nad yw'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi rhoi sylw i'w hanghenion penodol yn yr asesiad.</p> <p><u>Cyfarfod gyda Sally Rees (CGGC)</u>  Cyfeiriodd JLe at y llythyr yn y pecyn ynghylch cyfarfod gyda Chadeirydd CGGC. Soniodd BJE am gyfarfod diweddar gyda Sally Rees (CGGC) a drefnwyd gan CGGC yn unol â chais LIC.</p>	

<p>Deallir y bydd Sally Rees yn ysgrifennu adroddiad i LIC. Teimlai JLe, yn ysbryd y bartneriaeth, y dylai cynrychiolwyr Gofalwyr, defnyddwyr gwasanaeth a'r trydydd dsetcor fod wedi eu gwahodd i fod yn bresennol gyda'r cadeirydd. Dywedodd BJE y byddai'n rhoi'r adborth hwn i LIC gan mai nhw oedd wedi comisiynu'r gwaith hwn gan Sally Rees.</p> <p>Nododd JL fod cynrychiolwyr Gofalwyr/Dinaysddion hefyd wedi cael cyfarfod gyda chydweithwyr LIC.</p> <p><u>Comisiynu IPC</u> Yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol, dywedodd ME wrth aelodau'r bwrdd fod y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol wedi cynnig ariannu gweithdy rhanbarthol yn ystod gwanwyn 2019, wedi'i hwyluso gan IPC i gefnogi a datblygu dulliau o safbwynt bwriadau comisiynu integredig ar gyfer teuluoedd a phlant gydag anghenion cymhleth. Bydd aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol.</p> <p><u>Digwyddiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus/Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol 20.03.2019</u> Hysbyswyd aelodau ynghylch digwyddiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol: Myfyrio ar drefniadau sy'n dod i'r amlwg a gynhelir yng Nghaerdydd ar 20.03.2019 - disgwylir 2 neu 3 chynrychiolydd o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p> <p><u>Digwyddiad Arweinyddiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol – 12.03.2019</u> Anfonwyd yr enwau canlynol i LIC: Cynghorydd Gareth Roberts, Bethan Jones Edwards, Marian Wyn Jones, Neil Ayling, Cynghorydd Christine Jones, Clare Budden ac Estelle Hitchon. Mae dau le arall ar gael os oes unrhyw un o'r BPRhGC yn awyddus i fynd – enwau i RW/BJE</p>	<p>BJE i gysylltu â LIC ynghylch adborth Gofalwyr</p>
--	---